# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 13 Mai 2015** |
| Amser: | **09.17 – 12.20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3009**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Nicola Evans, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Dr Rosanne Palmer, Cynghrair Henoed Cymru**<br>**John Moore, My Home Life Cymru**<br>**Loraine Brannan, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'**<br>**Pamela Cook, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'**<br>**Kelvyn Morris, Grŵp Ymgyrchu 'Cyfiawnder i Jasmine'**<br>**Robin Moulster, Rheolwr CGCP Cymru, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Helen Finlayson (Ail Glerc)** |

Catherine Hunt (Ail Glerc)
Sian Giddins (Dirprwy Glerc)
Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Amy Clifton (Ymchwilydd)

---

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Lynne Neagle.

## 2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 9

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd Pobl Hŷn i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- copi o'i llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi ei barn ar y Bil; ac
- astudiaethau achos o'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar bobl hŷn yng Nghymru.

## 3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 10

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

3.2 Cytunodd Dr Rosanne Palmer i ddarparu nodyn ynghylch:

- amheuon un o aelodau Cynghrair Henoed Cymru ynghylch ymestyn cofrestru i'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan; ac
- Safbwynt Cynghrair Henoed Cymru ar sicrhau effeithiolrwydd ariannol yn ymwneud â defnyddio arolygwyr lleyg.

3.3 Cytunodd y tystion i ysgrifennu at y Pwyllgor i rannu eu barn ynghylch a ddylai'r Bil nodi y dylai'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau comisiynu a rhoi contractau i gwmnïau preifat gael eu hatal rhag gweithio i gwmnïau o'r fath o fewn cyfnod penodedig.

## 4 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 11

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn sut y byddai'r Bil yn rhoi ystyriaeth i adolygiad annibynnol Dr Margaret Flynn o Ymgyrch Jasmine.

## 5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 12

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau'r Aelodau.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Cofnodion cyfarfod 23 Ebrill 2015
6.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill.

6.2 Cofnodion cyfarfod 29 Ebrill 2015
6.2a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill.

6.3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan Gynghreiriau Ailalluogi Cymru, Cynhalwyr Cymru a Gofal Cymdeithasol a Lles
6.3a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Gynghreiriau Ailalluogi Cymru, Cynhalwyr Cymru a Gofal Cymdeithasol a Lles. Nododd fod y wybodaeth hefyd yn cael ei chymeradwyo gan Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru.

6.4 P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi: gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau
6.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth:

- cytunodd i ysgrifennu at y Prif Swyddog Meddygol yn gofyn iddi egluro ei disgwyliadau o ysbytai unigol wrth gymhwyso'r canllawiau proffesiynol ar drin babanod cynamserol iawn a gofalu amdanynt;
- gofynnodd am bapur yn amlinellu'r dewisiadau ar waith ar y mater hwn yn y dyfodol, i'w ystyried fel rhan o drafodaeth blaenraglen waith yn y dyfodol; ac
- cytunodd i roi gwybod i'r Pwyllgor Deisebau am benderfyniad y Pwyllgor.

6.5 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd
6.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd.

6.6 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
6.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 21 Mai 2015

7. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ystyriodd y dystiolaeth a dderbyniwyd.

## 9 Rheoliadau mewn perthynas â chymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: trafod y dull o weithredu

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar reoliadau mewn perthynas â chymhwysedd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chytunodd arno.